

Enwau siroedd Lloegr

England's county names



Enwau Lleoedd
Safonol Cymru
Standard Welsh
Place-names

Wrth gyfeirio at siroedd yn Lloegr, mae'n arferol defnyddio *swydd* yn hytrach na *sir* os yw'r elfen honno'n rhan o'r enw, felly *Swydd Bedford* sy'n arferol ac nid *Sir Bedford*.

Lle mae enwau Cymraeg yn dilyn yr elfen *swydd*, yna mae angen treiglo'r enw (e.e. *Swydd Gaergrawnt* a *Swydd Rydychen*).

When referring in Welsh to counties in England, it is customary to precede the county name with *swydd* rather than *sir* if that element is part of the name. It is therefore customary to use *Swydd Bedford* and not *Sir Bedford*.

Where Welsh names – e.g. *Caergrawnt* (Cambridge) or *Rhydychen* (Oxford) – follow the *swydd* element, the name needs to be mutated, e.g. *Swydd Gaergrawnt* and *Swydd Rydychen*.

Enw'r sir (Saesneg) County name (English)	Enw'r sir (Cymraeg) County name (Welsh)	Nodiadau	Notes
Bedfordshire	Swydd Bedford	Credir mai cyfieithiad ffansiol yw'r enw <i>Rhydwely</i> am <i>Bedford</i> , fel sydd yn <i>Geiriadur yr Academi</i> . Daw'r elfen <i>bed</i> yn <i>Bedford</i> o'r enw personol <i>Beda</i> , ac nid o'r gair 'bed' (gwely). Defnyddier Swydd Bedford yn Gymraeg am <i>Bedfordshire</i> .	The Welsh name <i>Rhydwely</i> for <i>Bedford</i> , as seen in <i>Geiriadur yr Academi</i> , is thought to be a fanciful translation. The <i>bed</i> element in <i>Bedford</i> comes from the personal name <i>Beda</i> , and not from the word 'bed'. Use Swydd Bedford in Welsh for <i>Bedfordshire</i> .
Berkshire	Berkshire		
Bristol	Bryste		

Buckinghamshire	Swydd Buckingham		
Cambridgeshire	Swydd Gaergrawnt	Ni chredir bod angen cysylltnod yn <i>Caergrawnt</i> gan ei fod yn enw sydd wedi ennill ei blwyf ac nad oes perygl o'i gamynganu.	It is not believed that a hyphen is needed in <i>Caergrawnt</i> as it is a well-established name and is not likely to be mispronounced.
Cheshire	Swydd Gaer	Mae cysylltiad cryf rhwng dinas <i>Caer</i> a'r elfen <i>lleng</i> neu <i>legion</i> gan fod ugeinfed lleng byddin Rufeinig y Valeria Victrix wedi ei lleoli yno. Dyma sy'n gyfrifol am y ffurfiau <i>Caerllion</i>, <i>Caerlleon</i> a <i>Caerllion Fawr</i>. Erbyn hyn mae'r elfen <i>lleng</i> wedi diflannu o'r enw a Caer sy'n gyffredin yn Gymraeg am <i>Chester</i>. Defnyddier Swydd Gaer yn Gymraeg am <i>Cheshire</i>. Nid i'w ddrysu â'r hen arfer yn y gorffennol o ddefnyddio <i>Sir Gaer</i> i gyfeirio at <i>Sir Gaernarfon</i> neu <i>Sir Gaerfyrddin</i>.	There is a strong connection between the city of Chester (Welsh. <i>Caer</i>) and the element <i>lleng</i> or <i>legion</i> as the twentieth legion of the Roman army of the Valeria Victrix was based there. This is the reason for the forms <i>Caerllion</i>, <i>Caerlleon</i> and <i>Caerllion Fawr</i>. By now the <i>lleng</i> element has disappeared from the name and Caer is the common Welsh name for <i>Chester</i>. Use Swydd Gaer in Welsh for <i>Cheshire</i>. Not to be confused with the old practice in the past of using <i>Sir Gaer</i> to refer to <i>Sir Gaernarfon</i> (Caernarfonshire) or <i>Sir Gaerfyrddin</i> (Carmarthenshire).
City of London	Dinas Llundain	<i>Llundain</i> yw'r enw ar y ddinas, ond defnyddier Dinas Llundain yn Gymraeg am sir <i>City of London</i>. Enw llenyddol ar Lundain mewn chwedloniaeth yw <i>Caer Ludd</i>. Caiff yr enw hwnnw ei ddefnyddio yn y Mabinogion yn chwedl Ludd a	<i>Llundain</i> is the Welsh name for the city itself, but Dinas Llundain is used in Welsh for the county <i>City of London</i>. <i>Caer Ludd</i> is a literary name for London in Welsh mythology. This name is used in the Mabinogion in the legend of Ludd and Llefelys,

		Llefelys, a gan Sieffre o Fynwy ym <i>Mrut y Brenhinedd</i> .	and by Geoffrey of Monmouth in <i>Brut y Brenhinedd</i> .
Cornwall	Cernyw		
County Durham	Swydd Durham		
Cumbria	Cumbria	<i>Cumbria</i> yw'r ffurf gyffredin i'w defnyddio yn Gymraeg heddiw. Ceir enghreifftiau yn Geiriadur Prifysgol Cymru o eiriau Cymraeg sy'n tarddu o <i>Cumbria</i> : <i>Cymbriad</i> am un o drigolion Cumbria a <i>Cymbriaidd</i> am rywbeth sy'n perthyn i diriogaeth Cumbria, er enghraifft, ond mae'r sillafiad Cymreig <i>Cymbria</i> yn perthyn i gyd-destun hanesyddol bellach.	<i>Cumbria</i> is the common form to be used in Welsh today. There are examples in <i>A Dictionary of the Welsh Language</i> of words that originate from <i>Cumbria</i> : <i>Cymbriad</i> for inhabitants of Cumbria and <i>Cymbriaidd</i> for something that belongs to Cumbria, for example, but the Welsh spelling <i>Cymbria</i> now belongs to a historical context.
Derbyshire	Swydd Derby		
Devon	Dyfnaint		
Dorset	Dorset		
East Sussex	Dwyrain Sussex		
Essex	Essex		
Gloucestershire	Swydd Gaerloyw		
Greater London	Llundain Fwyaf	<i>Llundain</i> yw'r enw ar y ddinas, ond defnyddier <i>Llundain Fwyaf</i> yn Gymraeg am sir <i>Greater London</i> . Enw llenyddol ar Lundain mewn chwedloniaeth yw <i>Caer Ludd</i> . Caiff yr enw hwnnw ei ddefnyddio yn y Mabinogion yn chwedl Lludd a Llefelys, a gan Sieffre o Fynwy ym <i>Mrut y Brenhinedd</i> .	<i>Llundain</i> is the Welsh name for the city itself, but <i>Llundain Fwyaf</i> is used in Welsh for the county <i>Greater London</i> . <i>Caer Ludd</i> is a literary name for London in Welsh mythology. This name is used in the Mabinogion in the legend of Lludd and Llefelys, and by Geoffrey of Monmouth in <i>Brut y Brenhinedd</i> .

Greater Manchester	Manceinion Fwyaf		
Hampshire	Hampshire		
Herefordshire	Swydd Henffordd	Mae <i>Sir Henffordd</i> yn amrywiad cyfarwydd hefyd.	<i>Sir Henffordd</i> is also a familiar variant in Welsh.
Hertfordshire	Swydd Hertford		
Isle of Wight	Ynys Wyth		
Kent	Caint		
Lancashire	Swydd GaerhIRfryn		
Leicestershire	Swydd Gaerlŷr		
Lincolnshire	Swydd Lincoln		
Merseyside	Glannau Mersi	Er bod <i>Glannau Merswy</i> i'w weld mewn cysylltiadau llenyddol, <i>Glannau Mersi</i> sydd fwyaf cyffredin bellach.	Although <i>Glannau Merswy</i> appears in literary associations, <i>Glannau Mersi</i> is now the most common form in Welsh.
Norfolk	Norfolk		
North Yorkshire	Gogledd Swydd Efrog		
Northamptonshire	Swydd Northampton		
Northumberland	Northumberland		
Nottinghamshire	Swydd Nottingham		
Oxfordshire	Swydd Rydychen		
Rutland	Rutland		
Shropshire	Swydd Amwythig	Mae <i>Sir Amwythig</i> yn amrywiad cyfarwydd hefyd.	<i>Sir Amwythig</i> is also a familiar variant in Welsh.
Somerset	Gwlad yr Haf		
South Yorkshire	De Swydd Efrog		
Staffordshire	Swydd Stafford	Credir mai cyfieithiad ffansiol yw'r enw <i>Rhyd y Fagl</i> am <i>Stafford</i> , fel sydd yn <i>Geiriadur yr Academi</i> . Ystyr <i>staff</i> yn <i>Stafford</i> yw man glanio ac nid ffon neu fagl. Nid oes sail i'r ffurf Gymraeg honno ac felly	The name <i>Rhyd y Fagl</i> fod <i>Stafford</i> , as seen in <i>Geiriadur yr Academi</i> , is thought to be a fanciful translation. <i>Staff</i> in <i>Stafford</i> reafers to a landing place and not a stick or staff. There is no basis for that Welsh form,

		defnyddier Swydd Stafford yn Gymraeg am <i>Staffordshire</i> .	therefore use Swydd Stafford in Welsh for <i>Staffordshire</i> .
Suffolk	Suffolk		
Surrey	Surrey		
Tyne and Wear	Tyne a Wear		
Warwickshire	Swydd Warwick	Gellir defnyddio <i>Warwig</i> i gyfeirio at enw'r iarll, <i>Iarll Warwig</i> (<i>Earl of Warwick</i>), ond defnyddier Warwick ar gyfer enw'r dref a Swydd Warwick am <i>Warwickshire</i> .	<i>Warwig</i> can be used to refer to the name of the earl, <i>Iarll Warwig</i> (<i>Earl of Warwick</i>), but use Warwick for the name of the town and Swydd Warwick for <i>Warwickshire</i> .
West Midlands	Gorllewin Canolbarth Lloegr		
West Sussex	Gorllewin Sussex		
West Yorkshire	Gorllewin Swydd Efrog		
Wiltshire	Wiltshire		
Worcestershire	Swydd Gaerwrangon		
Yorkshire, East Riding	Dwyrain Swydd Efrog		